# Cwestiynau Cyffredin

**Cwestiynau Cyffredin**

## Adrannau:

1. Y Broses Ymgeisio
2. Darparwr(wyr) Gofal Plant
3. Addysg Blynyddoedd Cynnar Am Ddim
4. Newid mewn Amgylchiadau
5. Cyfraddau Lwfans Gofal Plant
6. Ymholiadau am Daliadau



Medi 2025

| | Cwestiynau | Ymateb |
|---|---|---|
| **1. Y Broses Ymgeisio** | | |
| | Pwy sy'n gymwys i wneud cais am gyllid Lwfans Gofal Plant GIG Cymru? | Gall myfyrwyr sy’n derbyn Bwrsariaeth y GIG, neu a fydd yn gwneud cais amdani, hefyd wneud cais am gymorth ariannol ychwanegol os oes rhaid iddynt dalu am ofal plant cofrestredig tra’u bod yn mynychu eu cwrs. Y bwriad yw y bydd y lwfans yn ddull ychwanegol o’ch cynorthwyo â chostau gofal plant, ond ni fydd yn talu’ch costau i gyd. |
| | Sut mae gwneud cais am gyllid Lwfans Gofal Plant GIG Cymru? | Gall myfyrwyr sy'n dymuno gwneud cais am Lwfans Gofal Plant wneud hynny ar y cais am Fwrsariaeth ar-lein. |

| | | |
|---|---|---|
| | Pa wybodaeth sydd angen i mi ei darparu ar gyfer costau Gofal Plant? | Mae angen i chi sicrhau bod pob adran yn cael ei chwblhau mor gywir â phosibl.<br><br>Gall costau gofal plant amrywio'n sylweddol, a dibynnu ar y math o ofal plant, oedran eich plentyn a nifer yr oriau sydd eu hangen arnoch, er enghraifft:<br><br>• **Gofal Plant/Gwarchodwr Plant Diwrnod Cyfan -** Efallai y bydd yn rhaid ichi dalu i'ch darparwr gofal plant cofrestredig bob wythnos, hyd yn oed os na fydd eich plentyn/plant yn mynd yno oherwydd gwyliau neu salwch ac ati; neu efallai y bydd yn rhaid ichi dalu tâl cadw i'ch darparwr gofal plant. Os felly, dylech nodi dyddiad dechrau'r gofal plant, dyddiad gorffen y gofal plant, nifer yr wythnosau sy'n ofynnol ac yna'ch cost wythnosol. Os bydd eich costau'n amrywio o bryd i'w gilydd yn y flwyddyn academaidd, yna dylid gwneud cofnod ar wahân ar gyfer pob cyfnod.<br><br>• **Gofal y Tu allan i'r Ysgol -** Os bydd gofyn ichi gael help gyda chostau gofal plant ar gyfer Clwb Cyn/Ar ôl Ysgol yn unig, dylech nodi dyddiadau'r tymor pan fydd angen y gofal plant ac yna'ch cost wythnosol.<br><br>• **Gofal dydd sesiynol/Clwb Gwyliau -** Os oes angen help arnoch gyda chostau gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol yn unig, dylech nodi nifer yr wythnosau a'r gost wythnosol gyfartalog. |
| | A ellir ôl-ddyddio fy Ngofal Plant? | Gallwch wneud cais am y Lwfans Gofal Plant ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd, fodd bynnag dim ond i ddechrau'r flwyddyn academaidd y gallwn ôl-ddyddio taliadau ac am uchafswm yr wythnosau y mae'r cwrs yn rhedeg ar eu cyfer, a gadarnhawyd gan eich prifysgol. |
| | Sut byddaf yn gwybod a yw fy nghais Gofal Plant wedi'i gymeradwyo? | Bydd hyn yn cael ei ddangos ar eich Hysbysiad o Ddyfarniad Bwrsariaeth GIG Cymru. |
| | Rwyf wedi derbyn Hysbysiad o Ddyfarniad ond nid yw'n cynnwys gofal plant. Darparwch yr wybodaeth ganlynol | Pan fyddwch yn gwneud cais am y Lwfans Gofal Plant, byddwn yn cysylltu â'ch darparwr i wirio'r costau fel y gallwn ei wirio yn erbyn y swm yr ydych wedi'i ddatgan. Os na fyddant yn ymateb o fewn 5 diwrnod neu os oes ymholiad, byddwn yn cymeradwyo'ch Bwrsariaeth heb y lwfans hwn hyd nes y bydd unrhyw ymholiadau wedi'u datrys, yna byddwn yn eich ailasesu i gynnwys y lwfans pe baech yn gymwys. |

| | | |
|---|---|---|
| | Sut ydych chi'n asesu fy nghais os ydw i'n rhan o gwpl? | Mae eich cais yn destun asesiad modd ar incwm y cartref, cyfeiriwch at Adran 1 y canllaw yn y ddogfen hon ar sut y bydd incwm gweddilliol yn effeithio ar ganlyniad yr asesiad. |
| | A oes angen i mi wneud cais am Lwfans Gofal Plant GIG Cymru bob blwyddyn academaidd? | Oes – Ar gyfer pob blwyddyn academaidd o astudio. Os hoffech wneud cais am y Lwfans Gofal Plant, byddai angen i chi lenwi’r adran honno o’r cais Bwrsariaeth ar-lein gan ddatgan y gost gyfartalog ar gyfer nifer yr wythnosau ar y cwrs. |
| | Fi yw unig ofalwr fy Mhlant, pa wybodaeth sydd angen i mi ei darparu i gael fy ystyried ar gyfer Lwfans Gofal Plant GIG Cymru? | Mae'r cais am Fwrsariaeth yn cynnwys adran i'w chwblhau pe bai angen Lwfans Gofal Plant arnoch. Byddai angen i chi gwblhau hwn ac uwchlwytho'r dystiolaeth yn ôl yr angen. |

| | | |
|---|---|---|
| | Rwy’n derbyn cymorth ychwanegol gyda chostau Gofal Plant, a oes angen i mi ddatgan hyn ar fy ffurflen gais Lwfans Gofal Plant GIG Cymru? | Os ydych yn derbyn unrhyw help arall gyda chostau gofal plant, bydd angen datgan hyn er mwyn i ni sefydlu a oes angen i ni ei ymgorffori yn yr asesiad. |

## 2. Darparwr/Darparwyr Gofal Plant

| | | |
|---|---|---|
| | Mae gen i fwy nag un Darparwr Gofal Plant, sut mae cynnwys hyn yn fy nghais. | Ar eich cais ar-lein gallwch nodi pob darparwr a'r plentyn/plant y byddant yn gofalu amdano. Nid oes rhaid i chi nodi'r darparwr fwy nag unwaith, os ydynt yn gofalu am fwy nag un plentyn dewiswch yr holl blant yn yr adran honno. |
| | A allaf ddefnyddio unrhyw ddarparwr Gofal Plant? | Rhaid i chi ddefnyddio gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd sydd wedi'i gofrestru gan Arolygiaeth Gofal Cymru o dan ran o Ddeddf Plant 1989<br>(b). Yn Lloegr, mae gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd wedi'u cofrestru gan y Swyddfa Safonau mewn Addysg (OFSTED), neu mae'n rhaid ichi ddefnyddio darparwr sydd wedi'i gymeradwyo gan sefydliad sydd wedi'i achredu'n benodol.<br><br>Nid yw rhai clybiau Ar ôl/Allan o'r ysgol wedi'u cofrestru os ydynt yn rhedeg am 2 awr neu lai, pe gallech uwchlwytho llythyr o'r lleoliad i gadarnhau hyn a byddwn yn gallu ystyried hyn ar eich cais. |
| | A oes unrhyw eithriadau o ran pryd na ellir hawlio Lwfans Gofal Plant? | Ni ddylech ond nodi manylion y plentyn/plant fydd yn derbyn gofal plant cofrestredig neu gymeradwy. Fodd bynnag, **ni ellir** hawlio Lwfans Gofal Plant:<br><br>• Os yw'r darparwr gofal plant yn **berthynas uniongyrchol*** i'r plentyn/plant dan sylw, a'u bod yn:<br>- Darparu gofal i'r plentyn/plant yng nghartref y plentyn ei hun;<br>- Darparu gofal i ffwrdd o gartref y plentyn, ond mae'r gofal yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer y plentyn/plant rydych yn hawlio Lwfans Gofal Plant ar ei gyfer.<br>- *Mae perthynas uniongyrchol yn golygu rhiant, taid neu nain, modryb neu ewythr, brawd neu chwaer, neu lys-riant i'r plant/plentyn. Nid yw perthynas o reidrwydd yn berthynas 'gwaed'. Os oes gennych bartner, mae hyn hefyd yn cynnwys eu perthynas.<br><br>Arolygiaeth Gofal Cymru sy'n arolygu darparwyr gofal plant cofrestredig (neu OFSTED yn Lloegr), ac mae'n rhan o Lywodraeth Cymru. Bydd gan ddarparwyr gofal plant cofrestredig rif cofrestru os ydynt wedi'u cofrestru gyda'r naill awdurdod. Bydd eich Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn cadarnhau a yw eich darparwr wedi'i gofrestru.<br><br>Mae gofal plant cofrestredig yn cynnwys gwarchodwyr plant cofrestredig, meithrinfeydd, grwpiau chwarae, crèche, cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau a darpariaeth chwarae Mynediad Agored. Mae'r mathau hyn o ofal plant fel arfer ar gyfer plant o dan<br>wyth, ond mae plant wyth oed a throsodd sy'n mynychu cynlluniau sydd hefyd yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | darparu ar gyfer plant dan wyth oed hefyd yn gymwys i gael y lwfans oherwydd eu bod yn mynychu gofal plant cofrestredig.<br><br>Gall gofal plant cofrestredig hefyd gynnwys gofal plant a ddarperir gan Awdurdod Lleol neu gan rai ysgolion ar dir yr ysgol lle bydd plant yn cael gofal yn absenoldeb eu rhieni y tu allan i oriau ysgol.<br><br>Mae gofal plant cymeradwy yn ofal plant sydd wedi'i gymeradwyo gan gynllun Sicrwydd Ansawdd (SA) sefydliad achrededig penodol.<br><br>Mae'r darparwr gofal plant yn gofalu am un neu fwy o blant rhwng 8 a 14 blwydd oed (16 mlwydd oed ac iau os oes gan y plentyn anghenion arbennig cofrestredig), ac yn cael ei dalu am fwy na dwy awr y dydd.<br><br>Rhoddir cadarnhad ysgrifenedig o'r gymeradwyaeth i ddarparwr gofal plant sy'n cael ei gymeradwyo gan gynllun sicrhau ansawdd sefydliad achrededig. Rhoddir y gymeradwyaeth am gyfnod penodedig (dwy flynedd ar y mwyaf) a rhoddir rhif cyfeirnod i'r darparwr gofal plant. Ar hyn o bryd, yr unig gynlluniau perthnasol a ddefnyddir yng Nghymru yw'r cynllun 'Aiming High' ar gyfer clybiau y tu allan i'r ysgol a'r cynllun 'Quality in Play' i leoliadau chwarae.<br><br>Am ragor o wybodaeth am 'Aiming High cysylltwch â Clybiau Plant Cymru,<br>ffôn 029 2074 1000. Am ragor o wybodaeth am<br>'Quality in Play' cysylltwch â Chwarae Cymru, ffôn 029 2048 6050. |
| | Dydw i ddim yn siŵr faint o wythnosau i'w cynnwys ar y cais. | Mae'r Lwfans Gofal Plant fel gyda'r Bwrsariaeth a'r Lwfans Dibynyddion yn cael ei asesu ar nifer yr wythnosau y byddwch yn mynychu'r cwrs ar gyfer pob blwyddyn academaidd, y mae eich Prifysgol yn ei gadarnhau i GIG Cymru.<br><br>Rhaid i chi nodi'r gost GYFARTALOG ar gyfer y nifer o wythnosau rydych yn gwneud cais amdanynt. Mae angen i chi adio'r costau a'u rhannu â nifer yr wythnosau sy'n arwain at y cyfartaledd i'w nodi ar y cais.<br><br>Yna byddwn yn cysylltu â'ch darparwr i wirio'r manylion a gofnodwyd, ac os ydynt yn cyfateb, byddwn yn prosesu'r dyfarniad. Os na, byddwn yn cysylltu â chi neu'r darparwr yn ôl yr angen i ddatrys unrhyw faterion.<br><br>Rhaid i'r gofal plant gael ei ddarparu gan ddarparwr gofal plant cofrestredig neu gymeradwy a rhaid i'r plentyn fod yn 14 oed neu'n iau (neu o dan 16 neu'n iau os oes gan y plentyn anghenion arbennig cofrestredig), cyn dechrau'r flwyddyn ysgol academaidd, sef 1af Medi. |

# 3. Addysg Blynyddoedd Cynnar Am Ddim

| | | |
|---|---|---|
| | Beth yw Addysg Blynyddoedd Cynnar am Ddim? | Bydd gan bob plentyn tair a phedair oed yr hawl i gael lle mewn Addysg Blynyddoedd Cynnar rhan-amser am ddim. Mae hyn yn berthnasol nes iddynt gyrraedd oedran ysgol gorfodol (y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn bump oed). |
| | A oes isafswm wythnosau y dylid darparu'r sesiynau? | Nid oes isafswm i'r nifer o wythnosau mewn blwyddyn y dylid darparu'r sesiynau. |
| | Ydy'r gwasanaeth hwn am ddim? | Er bod y gwasanaeth hwn am ddim, mae'n bosibl y codir ffioedd arnoch am unrhyw wasanaethau sy'n fwy na'r hawl sylfaenol. |

| | | |
|---|---|---|
| | Ble gellir darparu Addysg Feithrin Rhad ac Am Ddim? | Gellir darparu addysg feithrin am ddim mewn meithrinfeydd, cylchoedd chwarae, grwpiau cyn ysgol, meithrinfeydd dydd preifat neu gyda gwarchodwr. Serch hynny, ni fydd pob meithrinfa, ysgol neu gylch chwarae'n cymryd rhan yn y cynllun.<br><br>Gallwch gael rhagor o wybodaeth ynglŷn ag a yw'ch plentyn yn gymwys i gael lle am ddim mewn Addysg Blynyddoedd Cynnar drwy eich Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol. |
| | Rwy'n derbyn yr Addysg Blynyddoedd Cynnar Rhad ac Am Ddim, a allaf hefyd dderbyn Lwfans Gofal Plant GIG Cymru? | Os ydych yn cael Addysg Blynyddoedd Cynnar am Ddim i'ch plentyn neu'ch plant, **ni allwch** gael Lwfans Gofal Plant GIG Cymru ar gyfer y cyfnodau neu'r sesiynau gofal plant hynny y mae Addysg Blynyddoedd Cynnar Am Ddim yn berthnasol iddynt.<br><br>Fodd bynnag, gallwch hawlio am unrhyw oriau atodol neu ychwanegol nad ydynt wedi'u cynnwys yn y sesiynau am ddim.<br><br>**Er enghraifft:**<br><br>*Os ydych yn talu cyfanswm o £100 am ofal plant yr wythnos, ond bod y Cynllun Addysg Blynyddoedd Cynnar yn talu £30 o'r swm hwn, ni ddylech ond datgan y £70 yr wythnos sy'n weddill ar eich cais am help gyda'ch costau gofal plant a hawlio'r swm hwnnw.* |
| | Rwy'n aros am ad-daliad am daliad a wneuthum tuag at Addysg Blynyddoedd Cynnar fy Mhlentyn, a oes angen i mi gynnwys y gost hon ar ffurflen gais Lwfans Gofal Plant GIG Cymru? | Efallai y bydd rhai darparwyr Addysg Blynyddoedd Cynnar yn gofyn ichi dalu am yr Addysg Blynyddoedd Cynnar am ddim a ddarperir ar gyfer eich plentyn, a fydd yn cael ei ad-dalu ichi'n ddiweddarach.<br><br>Os ydych yn disgwyl ad-daliad ar gyfer eich gofal plant o ffynhonnell arall, nodwch hyn yn eich cais am help gyda'ch costau gofal plant, **ond peidiwch â chynnwys y swm hwn yn eich hawliad.** |
| **4. Newid mewn Amgylchiadau** | | |
| | Beth fydd yn digwydd os bydd fy narparwr Gofal Plant yn newid? | Mewngofnodwch i'ch cyfrif ar-lein ac uwchlwythwch lythyr i egluro'r newid a newidiwch yr adran Lwfans Gofal Plant gyda manylion y darparwyr newydd a dileu'r hen. Bydd angen i'r gost gyfartalog a nodir adlewyrchu costau'r ddau ddarparwr am gyfanswm yr wythnosau y gwneir cais amdanynt.<br><br>**Er enghraifft:** os yw'r costau gydag un darparwr yn £100 yr wythnos am 20 wythnos a £200 yr wythnos am 22 wythnos os yw'r cwrs yn 42 wythnos i gyd, byddai angen i chi adio'r holl £100oedd a'r £200oedd i gyd a rhannu'r cyfanswm hwnnw â 42 i gael y gost gyfartalog i'w nodi ar y cais. |

| | | |
|---|---|---|
| | Rwyf wedi gwneud cais am Ddyfarniad Gofal Plant GIG Cymru, fodd bynnag mae fy amgylchiadau wedi newid erbyn hyn, beth ddylwn i ei wneud? | Mewngofnodwch i'ch cyfrif a newidiwch y cais ar-lein i adlewyrchu'r newid ac uwchlwythwch lythyr a thystiolaeth i gefnogi'r newid. |
| **5. Cyfraddau Lwfans Gofal Plant** | | |
| | A yw'r Lwfans Gofal Plant yn destun prawf modd? | Ydy – Mae Lwfans Gofal Plant GIG Cymru yn lwfans prawf modd. |
| | Beth mae 'yn dibynnu ar Brawf Modd' ac nad yw'n 'dibynnu ar Brawf Modd' yn ei olygu? | Mae elfen Prawf Modd y Fwrsariaeth yn cael ei hasesu yn erbyn cyfanswm incwm trethadwy rhiant/rhieni y myfyriwr (neu riant a'i briod/partner/partner sifil) neu bartner/priod fel y'i datgenir ar y cais ac fel y dangosir yn y dogfennau ategol a ddarparwyd.<br><br>Nid yw'r grant Heb fod yn dibynnu ar Brawf Modd yn cael ei asesu yn erbyn unrhyw incwm trethadwy ac mae'n grant sy'n daladwy cyn belled â bod yr holl feini prawf cymhwysedd eraill yn cael eu bodloni. |
| | Faint o Lwfans Gofal Plant GIG Cymru fyddaf yn ei dderbyn?Bydd faint y byddwch yn ei dderbyn yn dibynnu ar yr incwm sydd ar gael i chi a'ch teulu. | Os ydych yn gymwys, mae Lwfans Gofal Plant GIG Cymru yn talu hyd at 85% o'ch costau gofal plant cofrestredig neu gymeradwy i **uchafswm net o £128.78 yr wythnos ar gyfer un plentyn a**<br><br>**£209.95 yr wythnos ar gyfer dau neu fwy o blant**. Ni chodir treth ar unrhyw swm a gaiff ei ddyfarnu ichi. |

| | | |
|---|---|---|
| | Sut mae Lwfans Gofal Plant GIG Cymru yn cael ei gyfrifo? | Mae lwfans Gofal Plant GIG Cymru yn cael ei gyfrifo ar sail amgylchiadau unigol a bydd y swm a ddyfernir yn dibynnu ar yr incwm sydd ar gael i chi a'ch teulu. Bydd eich hawl i Lwfans Gofal Plant GIG Cymru yn seiliedig ar y wybodaeth gychwynnol a'r dystiolaeth a ddarperir gennych ar gyfer eich cais am Fwrsariaeth GIG Cymru. |
| **6. Ymholiadau am Daliadau** | | |
| | O bryd mae'r Lwfans Gofal Plant yn daladwy? | Mae'r Lwfans Gofal Plant yn daladwy am uchafswm yr wythnosau ar y cwrs. |
| | Pryd mae Lwfans Gofal Plant GIG Cymru yn cael ei dalu? | Fel arfer telir Lwfans Gofal Plant mewn 12 rhandaliad misol ynghyd â'ch taliad Bwrsariaeth GIG Cymru a delir yn uniongyrchol gan eich Prifysgol.<br><br>Mae'r brifysgol yn gyfrifol am weinyddu Bwrsariaeth GIG Cymru ynghyd ag unrhyw lwfansau ychwanegol. O'r herwydd, eu penderfyniad hwy yw swm y rhandaliadau ac amlder y taliadau.<br><br>I gael rhagor o wybodaeth am ddyddiadau talu, gofynnwn i chi gysylltu ag adran Gyllid eich Prifysgol. |
| | A yw swm y Dyfarniad Gofal Plant yn newid dros y flwyddyn? | Bydd taliadau Lwfans Gofal Plant yn newid yn unig os bu newid i gost eich Gofal Plant.<br><br>Os bydd eich sefyllfa'n newid ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, boed yn gynnydd neu'n ostyngiad i'r swm o arian rydych yn ei dalu i'ch darparwr gofal plant, yna bydd angen i chi roi gwybod i ni er mwyn i ni allu ailasesu eich cais. |
| | Pam mae fy nhaliadau wedi dod i ben? | Gall taliadau fod wedi dod i ben am sawl rheswm: -<br><br>- Tynnu'n ôl yn barhaol neu atal dros dro.<br>- O ganlyniad i wiriadau archwilio ac er enghraifft, mae eich darparwr yn cadarnhau nad ydych wedi gwneud taliadau cywir.<br>- Os byddwch yn cychwyn ar gyfnod Mamolaeth ni allwch wneud cais am Lwfans Gofal Plant tra nad ydych yn mynychu'r cwrs. |